Hysbysiad i gofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid

Y Comisiwn Etholiadol

Ymgyrchydd nad yw'n blaid

Unigolion neu sefydliadau yw ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n ymgyrchu yn y cyfnod cyn etholiadau, ond nad ydynt yn sefyll fel pleidiau gwleidyddol nac ymgeiswyr.

Os ydych yn bwriadu gwario mwy na £10,000 ar ymgyrchu yn ystod y cyfnod a reoleiddir cyn etholiadau, rhaid i chi anfon hysbysiad i gofrestru gyda ni fel ymgyrchydd nad yw'n blaid.

Os yw cyfanswm eich gwariant a reoleiddir yn aros islaw'r trothwy hysbysu hwn o £10,000, nid oes angen i chi gofrestru gyda ni.

Os credwch y byddwch yn gwario mwy na'r swm hwn, dylech ein hysbysu cyn gynted â phosibl. Ni ddylech wario mwy na'r trothwy hysbysu hyd nes y cewch gadarnhad ysgrifenedig o'ch cofrestriad.

Mae'r Comisiwn yn cynnal **cofrestr** o hysbysiadau gan ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn ystod y cyfnod cyn etholiadau. Mae'n drosedd gwario mwy na'r trothwy heb ein hysbysu.

Dim ond unigolion penodol a mathau penodol o sefydliadau a all gofrestru. Os nad ydych yn perthyn i unrhyw un o'r categorïau hynny, nid ydych yn gymwys i gofrestru ac ni allwch wario mwy na'r trothwy hysbysu.

Gallwch anfon eich hysbysiad i gofrestru atom **ar-lein.** Gallwch hefyd ddefnyddio'r ffurflen hon. Dylech ddarllen y canllawiau cysylltiedig cyn cwblhau eich hysbysiad ar-lein neu gwblhau'r ffurflen hon.

Ar gyfer pwy y mae'r ffurflen hon

Unigolion neu sefydliadau sy'n bwriadu gwario mwy na £10,000 ar ymgyrchu yn y cyfnod cyn etholiadau yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

Rydym yn defnyddio'r gair **"rhaid"** yn y canllawiau hyn i egluro bod gofyniad cyfreithiol i ddarparu gwybodaeth.

Ni allwn brosesu'r ffurflen hyd nes y caiff y ffurflen hon ei chwblhau a'r datganiadau eu llofnodi. Rhaid i'r wybodaeth a roddir ar y ffurflen fod yn wir ac yn gywir. Os bydd angen canllawiau pellach arnoch o ran eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau, gallwch ddarllen ein canllawiau.

Cynghorir ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau a/neu unigolion cyfrifol i geisio eu cyngor cyfreithiol annibynnol eu hunain ar eu hatebolrwyddau a'u dyletswyddau llawn.

Nodiadau eglurhaol

Adran 1: Manylion yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n rhoi hysbysiad

Rhaid i bawb gwblhau'r adran hon o'r ffurflen.

Os mai unigolyn ydych, rhaid i chi roi eich enw llawn a'ch cyfeiriad cartref i ni. Dim ond os ydynt ar y gofrestr etholiadol neu'n preswylio yn y DU y gall unigolion anfon hysbysiad atom. Rhowch y manylion cyswllt ychwanegol y gofynnwyd amdanynt hefyd.

Os ydych yn rhoi hysbysiad fel sefydliad, rhaid i chi roi enw a chyfeiriad y sefydliad. Rhaid i chi ddefnyddio cyfeiriad swyddogol y sefydliad, megis ei swyddfa gofrestredig, ei bencadlys neu ei brif swyddfa. Rhowch y manylion cyswllt ychwanegol y gofynnwyd amdanynt hefyd.

Adran 2: Statws

Rhaid i bawb gwblhau'r adran hon o'r ffurflen.

Ticiwch un blwch i ddweud wrthym pwy neu beth rydych yn ei gofrestru.

Dim ond mathau penodol o endidau a all rhoi hysbysiad a dylech sicrhau eich bod wedi darllen ein canllawiau er mwyn deall a allwch gofrestru. Isod ceir rhestr o'r endidau a all rhoi hysbysiad:

- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar un o gofrestrau etholiadol y DU neu sy'n preswylio yn y DU
- cwmni sydd wedi'i gofrestru yn y DU ac sy'n gwmni corfforedig yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- cymdeithas gyfeillgar, diwydiannol neu ddarbodus sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU ac sy'n cynnal y rhan fwyaf o'i busnes neu weithgareddau eraill yn y DU
- corff sydd wedi'i gorffori gan Siarter Frenhinol
- sefydliad corfforedig elusennol yn y DU
- partneriaeth yn yr Alban sy'n cynnal busnes yn y DU

Os ydych yn hysbysu fel unigolyn, dywedwch wrthym a ydych ar y gofrestr neu'n preswylio yn y DU.

Os ydych yn hysbysu fel cwmni, rhaid i chi roi rhif cofrestru eich cwmni i ni.

Hysbysiad i gofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid

Adran 3: Hysbysiad person cyfrifol eich sefydliad

Rhaid i sefydliadau ac unigolion gwblhau'r rhan hon o'r ffurflen.

Rhaid i'r sefydliad roi enw'r unigolyn cyfrifol. Yr unigolyn hwn sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid yn dilyn y rheolau ar wariant, rhoddion a chofnodi. Dylech hefyd ddarparu manylion cyswllt ychwanegol yn y blychau a ddarperir at ddibenion gohebiaeth.

Nid oes rhaid i chi gwblhau'r adran hon os ydych yn hysbysu fel unigolyn, gan mai chi fydd yr unigolyn sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth yn awtomatig.

Rhaid i sefydliadau eraill roi manylion yr unigolyn sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth â'r rheolau o ran adrodd, gwariant a rhoddion yn y sefydliad.

Sicrhewch eich bod yn nodi'n glir swydd yr unigolyn a gaiff ei benodi'n unigolyn cyfrifol yn y sefydliad.

Gwybodaeth ychwanegol

Fel rhan o'r hysbysiad hwn, rhaid i rai sefydliadau roi enwau'r unigolion sy'n aelodau o'u cyrff llywodraethu neu bwyllgorau. Gelwir yr unigolion hyn yn 'gyfranogwyr perthnasol' yn ôl y gyfraith. Os ydych yn un o'r cyrff a restrir yn y tabl isod, defnyddiwch y daflen parhad ar waelod y ffurflen hon i roi enwau cyfranogwyr perthnasol eich sefydliad.

Sefydliad	Cyfranogwyr perthnasol
Cwmni cofrestredig	Cyfarwyddwyr y cwmni
Undeb Llafur	Swyddogion yr undeb llafur
Cymdeithas Adeiladu	Cyfarwyddwyr y gymdeithas
Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig	Aelodau'r Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig
Cymdeithasau Cyfeillgar	Aelodau pwyllgor rheoli'r gymdeithas
Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus	Aelodau pwyllgor rheoli neu gorff cyfarwyddo arall y gymdeithas
Cymdeithasau Anghorfforedig	Lle mae gan y corff fwy na 15 aelod ynghyd â swyddogion neu gorff llywodraethu, swyddogion neu aelodau'r corff llywodraethu; lle mae ganddo 15 aelod neu lai, aelodau'r corff
Corff sydd wedi'i gorffori gan Siarter Frenhinol	Swyddogion y corff neu aelodau ei gorff llywodraethu
Partneriaethau yn yr Alban	Y partneriaid
Sefydliad Elusennol Anghorfforedig yn y DU	Ymddiriedolwyr yr elusen

Adran 4: A ydych yn cynnal busnes yn y DU?

Rhaid i rai sefydliadau ddarparu gwybodaeth os ydynt yn cynnal busnes yn y DU. Rhaid cwblhau'r adran hon os ydych yn:

- gwmni cofrestredig yn y DU
- partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU
- partneriaeth yn yr Alban

Adran 5: A ydych yn cyflwyno unrhyw ddogfennaeth ategol gyda'ch ffurflen?

Gallwch gyflwyno unrhyw ddogfennau eraill i gefnogi eich hysbysiad. Os byddwch yn gwneud hynny, ticiwch y blwch yn yr adran hon.

Er enghraifft, gallai hyn fod yn dystiolaeth eich bod yn cynnal busnes neu fod gan eich sefydliad strwythur sy'n bodloni un o'r gofynion ar gyfer cofrestru.

Nid oes rhaid i chi ddarparu'r wybodaeth hon ond gall oedi'r broses gofrestru os bydd yn rhaid i ni ofyn am ragor o wybodaeth.

Hysbysiad i gofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid

Adran 6: Trothwy adrodd Etholiadau Cyffredinol Senedd y DU

Os nad ydych yn bwriadu mynd i wariant a reoleiddir sydd dros £20,000 yn Lloegr neu £10,000 yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon mewn etholiad cyffredinol Senedd y DU, gallwch gynnwys datganiad tebyg gyda'ch hysbysiad. Cyn belled nad yw eich gwariant yn mynd dros y symiau hyn ym mhob arall, byddwch yn parhau i fod o dan y trothwy adrodd ar gyfer etholiadau cyffredinol Senedd y DU a ni fydd angen i chi gyflwyno adroddiadau cyn etholiad nac adrodd am eich gwariant a'ch rhoddion ar ôl yr etholiad.

Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn ein canllawiau.

Os ydych am roi gwybod i ni am eich bwriad i barhau i fod o dan y trothwy adrodd mewn etholiadau cyffredinol Senedd y DU, ticiwch y blwch yn yr adran hon a chadarnhewch eich bod darllen a deall y datganiad cysylltiedig.

Adrannau 7-9: Llofnodion

Mae yna flwch ar wahân i unigolion a sefydliadau. Llofnodwch y blwch priodol ar gyfer y math o endid rydych yn rhoi gwybod i ni amdano.

Adran 7: Unigolion
Os mai unigolyn ydych, rhaid i chi lofnodi a dyddio'r datganiad eich hun.

Adran 8: Sefydliadau eraill
Os ydych yn rhoi gwybod i ni am un o'r sefydliadau eraill a restrir yn Adran 2, rhaid i ysgrifennydd eich sefydliad, neu unigolyn sy'n gweithredu mewn rôl debyg i'r ysgrifennydd mewn perthynas â'r sefydliad, lofnodi a dyddio'r datganiad.

Os ydych yn llofnodi'r ffurflen ond nad chi yw'r ysgrifennydd, rhaid i chi ddweud wrthym ym mha rôl rydych yn gweithredu a'r rheswm pam rydych felly yn gymwys i lofnodi'r ffurflen.

Adran 9: Llofnod yr Unigolyn Cyfrifol
Os ydych yn hysbysu i gofrestru sefydliad, mae'n rhaid i chi gwblhau'r adran hon.

Rhaid i'r unigolyn cyfrifol hefyd lofnodi'r ffurflen hon, gan nodi bod yr wybodaeth yn gywir a'i fod yn deall ei gyfrifoldebau o dan y Ddeddf.

Os bydd angen canllawiau pellach arnoch o ran eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau, gallwch ddarllen ein canllawiau.

Cynghorir ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau a/neu unigolion cyfrifol i geisio eu cyngor cyfreithiol annibynnol eu hunain ar eu hatebolrwyddau a'u dyletswyddau llawn.

Cwblhau ac anfon y ffurflen atom

Rhaid i chi ein hysbysu cyn i chi wario mwy na £10,000 yn ymgyrchu mewn etholiadau yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

Er ein bod yn prosesu pob cofrestriad mor gyflym â phosibl, mae'r gwaith o gynnal ein gwiriadau angenrheidiol yn unol â'r gofynion cyfreithiol yn golygu na wneir penderfyniad ynghylch cofrestriad newydd ar unwaith. Dylech sicrhau eich bod yn cyflwyno eich hysbysiad i ni mewn da bryd i ni gynnal y gwiriadau hyn cyn i chi wario mwy na'r trothwy hysbysu.

Os na fydd gennym ddigon o wybodaeth i wirio eich hysbysiad, byddwn yn gofyn i chi am ragor o wybodaeth. Ni ddylech wario mwy na'r trothwy hysbysu hyd nes y cewch gadarnhad ysgrifenedig o'ch cofrestriad.

Byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth ar y gofrestr gyhoeddus o ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, ond ni fyddwn yn cyhoeddi cyfeiriad unrhyw unigolyn.

Dychwelwch y ffurflen drwy'r post neu drwy e-bost i

Party and Election Finance
3 Bunhill Row
London
EC1Y 8YZ

Ffôn: 020 7271 0616
E-bost: partyreg@electoralcommission.org.uk
Gwefan: www.comisiwnetholiadol.org.uk

Gallwch hefyd ddychwelyd y ffurflen i unrhyw un o'n swyddfeydd datganoledig yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Mae manylion cyswllt ein swyddfeydd datganoledig ar gael ar ein **gwefan.**

Byddwn yn cydnabod pob hysbysiad.

Hysbysiad i gofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid

1 Manylion yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n rhoi hysbysiad i gofrestru

Manylion yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n rhoi hysbysiad i gofrestru. Dyma'r enw a fydd yn ymddangos ar y gofrestr.

Cyfeiriad

Tref

Cod post

Rhif ffôn

Cyfeiriad e-bost

2 Statws

Rwy'n hysbysu fel:

Unigolyn

Os ydych yn hysbysu fel unigolyn, rhaid i chi fod ar y gofrestr etholiadol neu'n preswylio yn y DU

A ydych ar y gofrestr etholiadol

A ydych yn preswylio yn y DU

Ewch i Adran 6 – Trothwy adrodd Etholiadau Cyffredinol Senedd y DU

Cwmni

Rhif Cofrestru'r Cwmni:

Cymdeithas adeiladu

Undeb llafur

Partneriaeth yn yr Alban sy'n cynnal busnes yn y DU

Sefydliad corfforedig elusennol yn y DU

Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig

Cymdeithas lesiant, ddiwydiannol neu ddarbodus

Cymdeithas anghorfforedig

Corff sydd wedi'i gorffori gan Siarter Frenhinol

Ewch i Adran 3 – yr unigolyn cyfrifol a gwybodaeth ychwanegol

Hysbysiad i gofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid

3 Hysbysiad unigolyn cyfrifol eich sefydliad (mathau eraill o sefydliad)*

Teitl

Enw(au) Cyntaf

Cyfenw

Cyfeiriad

Tref

Cod post

Rhif ffôn

Cyfeiriad e-bost

Swydd yn y sefydliad

* Rhaid i rai sefydliadau hefyd roi enwau'r unigolion sy'n aelodau o'u cyrff llywodraethu neu bwyllgorau. Gelwir yr unigolion hyn yn 'gyfranogwyr perthnasol' yn ôl y gyfraith. Os ydych yn un o'r cyrff a restrir yn y tabl ar dudalen tri o'r nodiadau eglurhaol ar gyfer y ffurflen hon, defnyddiwch y daflen parhad i roi enwau cyfranogwyr perthnasol eich sefydliad. Mae'r daflen parhad ar ddiwedd y ddogfen hon.

4 A ydych yn cynnal busnes yn y DU?

Os yw'n ofynnol i chi gynnal busnes yn y DU fel rhan o'ch hysbysiad, amlinellwch eich gweithgareddau presennol yn y blwch isod:

5 Dogfennaeth arall sy'n cefnogi'ch hysbysiad

A ydych yn cyflwyno unrhyw ddogfennaeth arall sy'n cefnogi'ch hysbysiad: Ydw ☐

6 Trothwy adrodd Etholiadau Cyffredinol Senedd y DU

A fydd eich gwariant yn etholiadau cyffredinol Senedd y DU yn parhau i fod o dan y trothwy adrodd? (Gweler y nodiadau eglurhaol am ragor o wybodaeth)

Oes ☐ Ydw ☐

Os 'bydd', ticiwch y blwch isod i gadarnhau eich bod wedi darllen y datganiad ac yn ei ddeall.

'Rwyf/Rydym yn cadarnhau nad wyf/nad ydym yn bwriadu gwario mwy na'r trothwy adrodd yn etholiadau cyffredinol Senedd y DU ac yn cadarnhau fy mod/ein bod yn deall ei fod yn drosedd gwneud hynny heb hysbysu'r Comisiwn Etholiadol ymlaen llaw bod fy ngwariant/ein gwariant wedi mynd dros y trothwy hwn. ☐

7 Datganiad a llofnodion (unigolion)

Hysbysaf y Comisiwn Etholiadol drwy hyn fod yr unigolyn a enwir yn adran 1 yn dymuno cofrestru fel ymgyrchydd at ddibenion Rhan VI o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Rwy'n datgan, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, bod yr wybodaeth rwyf wedi'i darparu ar y ffurflen hon yn wir, ac mai:

Fi yw'r person sy'n darparu hysbysiad i gofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid ☐

Llofnodwyd

Enw

Dyddiad

D D M M B B B B

Hysbysiad i gofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid

8 Datganiad a llofnodion (Sefydliadau eraill)

Hysbysaf y Comisiwn Etholiadol drwy hyn fod y sefydliad a enwir yn Adran 1 yn dymuno cofrestru fel ymgyrchydd at ddibenion Rhan VI o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Rwy'n datgan, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, bod yr wybodaeth rwyf wedi'i darparu ar y ffurflen hon yn wir, ac mai:

Fi yw'r ysgrifennydd, neu'r un sy'n gweithredu mewn rôl debyg i ysgrifennydd y sefydliad, a enwir yn Adran 1.

Llofnodwyd

Enw

Swydd

Dyddiad

D D M M B B B B

Os nad chi yw ysgrifennydd y cwmni, eglurwch sut rydych yn gweithredu mewn rôl debyg i ysgrifennydd cwmni.

9 Datganiad a llofnodion (Unigolyn cyfrifol)

Drwy lofnodi'r datganiad hwn, rwy'n cadamhau bod yr wybodaeth ar y ffurflen hon yn wir ac yn gywir. DeaJlaf y gaJlaf gaet fy er1yn os byddaf yn gwneud datganiad anwir ar y ffurflen hon.

Deallaf hefyd fy mod, drwy lofnodi'r datganiad hwn, yn gyfrifol am yr holl atebolrwyddau a dyletswyddau a briodolir i mi fel unigolyn cyfrifol, ac y gall hyn gynnwys atebolrwyddau a dyletswyddau a briodolir i ymgyrchydd nad yw'n blaid.

Llofnodwyd

Enw

Swydd a Ddelir

Dyddiad

D D M M B B B B

Hysbysiad i gofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid

Os yw eich sefydliad wedi'i restru isod, rhaid i chi ddefnyddio'r ddalen isod i roi manylion cyfranogwyr perthnasol eich sefydliad. Gallwch ddefnyddio cynifer o ddalenni ag sydd eu hangen arnoch.

Rhaid i'r sefydliadau a restrir roi manylon eu cyfranogwyr perthnasol:

Sefydliad	Cyfranogwyr perthnasol
Cwmni cofrestredig	Cyfarwyddwyr y cwmni
Undeb Llafur	Swyddogion yr undeb llafur
Cymdeithas Adeiladu	Cyfarwyddwyr y gymdeithas
Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig	Aelodau'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig
Cymdeithasau Cyfeillgar	Aelodau pwyllgor rheoli'r gymdeithas
Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus	Aelodau pwyllgor rheoli neu gorff cyfarwyddo arall y gymdeithas
Cymdeithasau Anghorfforedig	Lle mae gan y corff fwy na 15 aelod ynghyd â swyddogion neu gorff llywodraethu, swyddogion neu aelodau'r corff llywodraethu; lle mae ganddo 15 aelod neu lai, aelodau'r corff
Cyrff sydd wedi'u corffori gan Siarter Frenhinol	Swyddogion y corff neu aelodau ei gorff llywodraethu
Partneriaethau yn yr Alban	Y partneriaid
Sefydliad Elusennol Anghorfforedig yn y DU	Ymddiriedolwyr yr elusen

Enw'r sefydliad:

Rhestrir isod cyfranogwyr perthnasol y sefydliad a enwir uchod.

Enw	Swydd

Hysbysiad i gofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid

At ddefnydd y Comisiwn Etholiadol

Dyddiad derbyn D D M M B B B B

Gwiriwyd gan

Dyddiad cofnodi yn y gronfa ddata D D M M B B B B

Cyfeirnod ffeil

Datganiad preifatrwydd

Dim ond er mwyn cefnogi ein swyddogaethau statudol y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a rowch i ni. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data. Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol, nac unrhyw wybodaeth bersonol y gallwch ei rhoi am bobl eraill, ag unrhyw unigolyn oni bai bod yn rhaid i ni yn ôl y gyfraith.

Sail gyfreithiol dros gasglu'r wybodaeth yn y ffurflen hon yw bod ei hangen arnom er mwyn cyflawni tasgau er budd y cyhoedd ac arfer yr awdurdod swyddogol a roddir i'r Comisiwn Etholiadol fel y nodir yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a'r rheoliadau cysylltiedig a deddfwriaeth etholiadol arall. Caiff rhywfaint o'r wybodaeth a gesglir yn y ffurflen hon ei dosbarthu'n ddata personol categori arbennig. Rydym yn prosesu'r wybodaeth hon er budd sylweddol y cyhoedd, sy'n seiliedig ar gyfraith y DU. Er mwyn prosesu'r math hwn o wybodaeth, mae'n rhaid bod gan y Rheolydd Data ddogfen bolisi berthnasol sy'n nodi'r modd yr ymdrinnir â'r wybodaeth hon.

Y Comisiwn Etholiadol yw'r Rheolydd Data a gellir cysylltu â'i Swyddog Diogelu Data yn **dataprotection@electoralcommission.org.uk.**

Gallwch ddarllen ein hysbysiad preifatrwydd yn **electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd** i gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn prosesu data personol.